Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Mawrth, 23 Awst 2016

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E. Dole (Chair)

Y Cynghorwyr:
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens a/ac J. Tremlett

Yn bresennol fel sylwedyddion:-
Y Cynghorwyr T. Devichand a J.S. Edmunds.

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

Mr. M. James	–	Y Prif Weithredwr
Mr. C. Moore	–	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Ms R. Mullen	–	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
Ms L. Rees Jones	–	Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
Mr. S. Pilliner	–	Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg
Ms D. Williams	–	Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau Cynorthwyol
Mr. K. Thomas	–	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir - 11.00 - 11.10 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Gravell.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

3. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

5. TREFNIADAU LLYWODRAETHU AR GYFER PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 13^{eg} Ebrill, 2016 wedi penderfynu "sefydlu panel apêl i ymdrin â Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol, gan roi rôl ymgynghorol i swyddogion perthnasol, ochr yn ochr ag aelodau â phleidlais – yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Drafnidiaeth, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant a'r aelod lleol ar gyfer y ward berthnasol".

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Gweithredol, gan mai swyddogaeth weithredol fyddai

penderfynu ar yr apeliadau, y byddai angen iddo fabwysiadu trefniadau llywodraethu a fanylai ar y ffordd y byddid yn gwneud penderfyniadau apêl. I'r perwyl hwnnw, rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r trefniadau llywodraethu arfaethedig a oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer y Panel Apêl Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

6. TIR A DDELIR MEWN YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL- CANIATÂD YMDDIRIEDOLWR

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ar gais a oedd wedi dod i law gan Fforwm Trimsaran am i'r Cyngor, yn rhinwedd bod yn Ymddiriedolwr Maes Hamdden Trimsaran, roi caniatâd i'r Fforwm, yn unol â phrydles ddyddiedig 25ain Gorffennaf, 2000, is-osod gwagle'r to yng Nghanolfan Hamdden Trimsaran i Awel Aman Tawe, elusen ynni gymunedol, at ddibenion gosod paneli haul.

PENDERFYNWYD bod Cyngor Sir Caerfyrddin, fel Ymddiriedolwr Maes Hamdden Trimsaran, yn rhoi caniatâd i Fforwm Trimsaran is-osod gwagle'r to yng Nghanolfan Hamdden Trimsaran i Awel Aman Tawe at ddibenion gosod paneli haul.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**